Eleri Lewis, **Clerc / Clerk**
Yr Alma
Cribyn
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7ND

Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad

www.llanfihangelystradcc.org.uk
✆ 01570 470 135
e-bost / email: clerc@llanfihangelystradcc.org.uk

# ADRODDIAD CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL YSTRAD

# 2025-26

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad. Mae'n rhoi trosolwg o waith y Cyngor yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026

Cadeirydd : Y Cyng. Haf Hughes



Y Cyng. Melinda Williams yn trosglwyddo'r awenau i'r Cyng. Haf Hughes

# HANES Y CYNGOR

Mae Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad yng nghanol Sir Ceredigion, hanner ffordd rhwng Lanbedr Pont Steffan ac Aberaeron a hanner ffordd o'r Gogledd i'r De o'r Sir.

Wedi ad-drefnu Llywodraeth Leol yn 1974, pan sefydlwyd Cyngor Sir Dyfed, cafodd y Cynghorau Plwyf eu galw yn 'Gynghorau Cymuned'.

Yn 1987 unwyd Cyngor Cymuned Dihewyd a Llanfihangel Ystrad. Mae yna wyth (8) Cynghorydd yn Ward Llanfihangel Ystrad a tri (3) yn Ward Dihewyd. Y pentrefi yn Ward LlanfihangelYstrad yw Felin Fach, Ystrad Aeron, Cribyn, Abermeurig, Temple Bar, Ffynnon Oer a rhan o Bont Creuddyn, ac yn Ward Dihewyd, pentref Dihewyd a Throed-y-rhiw.

Cynhelir cyfarfodydd ar yr ail nos Fawrth o bob mis, arwahan i fis Awst a mis Ionawr. Cynhelir cyfarfodydd yn Neuadd Goffa Felin Fach, Ysgol Cribyn a Neuadd Bentref Dihewyd yn eu tro. Cynhelir y cyfarfodydd am 7.30yh.

# SWYDDOGION AC AELODAU

**Cadeirydd**

Y Cyng. Haf Hughes

**Is-Gadeirydd**

Y Cyng. Lynford Thomas

**CYNGHORWYR**

Glyn Davies, *Euros Davies, Daniel Evans, Hywel Ifans, Alan Henson, *Wendy Lloyd Lewis, Gerwyn Owen, Lyn Williams, Melinda Williams.

*Cyfetholwyd y Cyng. Wendy Lloyd Lewis i Ward Dihewyd i lenwi sedd y diweddar Johnny Davies a'r Cyng. Euros Davies i lenwi sedd Harry Williams yn dilyn ei ymddiswyddiad.

**Clerc**

Eleri Lewis

**Archwilydd Mewnol**

Gwyn Jones

**Cynrychiolydd y Cyngor Sir.**

Y Cyng. Ceris Jones

# CYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddarparu amrywiaeth o wahanol wasanaethau o fewn yr ardal y mae'n ei gynrychioli ar ran y gymuned gyfan. Dyma rai o gyfrifoldebau Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad

- gosod Praesept sef y dreth sydd yn cael ei ddosbarthu i'r Cyngor bob blwyddyn
- cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio i Bwyllgor Cynllunio Cyngor Ceredigion
- cyfrannu at geisiadau am nawdd oddi wrth elusennau/grwpiau/mudiadau ar yr amod y derbynnir mantolen ariannol gyfredol, yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor
- hysbysu adrannau perthnasol Cyngor Ceredigion am gyflwr ffyrdd, llwybrau, pontydd, goleuadau stryd, meysydd parcio a hawliau tramwy.

# POLISÏAU'R CYNGOR

Mae'r polisïau a'r dogfennau canlynol i'w gweld ar y wefan.

- Polisi Preifatrwydd
- Polisi Hyfforddiant
- Rheolau Ariannol
- Y Cod Ymddygiad
- Polisi Iechyd Meddwl
- Ffurflen GDPR
- Adroddiad Bio-Amrywiaeth
- Polisi Iaith
- Rheolau Sefydlog
- Cofrestr Buddiannau
- Datganiadau Ariannol ac Adroddiadau'r Archwilydd Allanol

Llywodraethiant – Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad (llanfihangelystrad-cc.org.uk)

# CYLLID

## ARCHWILIAD ALLANOL

Cyflwynwyd cyfrifon 2025-26 ar sail incwm a gwariant. Cynhaliwyd archwiliad llawn gan Archwilwyr Cymru. Cyflwynwyd a derbyniwyd adroddiad yr Archwiliwr Mewnol yng nghyfarfod mis Mai 2026.

**Mae'r Datganiadau Blynyddol ac Adroddiadau i'w gweld ar y wefan :** **Cyllid – Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad (llanfihangelystrad-cc.org.uk)**

Prif ffynhonnell incwm y Cyngor yw'r praesept. Dyma'r unig ffynhonnell o incwm sydd ar gael i gynghorau cymuned a thref. Paratoir cyllideb ddrafft ar sail asesiad o sefyllfa ariannol y Cyngor drwy ystyried y costau tebygol yn yr hydref.

Hawlia'r Cyngor ad-daliad treth ar werth a dalwyd yn ystod y flwyddyn.

**PRAESEPT: £9,950**

**RHESTR O RODDION:**

| | |
|---|---|
| Eisteddfod Dihewyd | £125.00 |
| Eisteddfod Felinfach | £125.00 |
| CFFI Ceredigion | £100.00 |
| CFFI Felinfach | £ 50.00 |
| Sandy Bear | £100.00 |
| Cerebal Palsy | £ 50.00 |
| HAHAV | £ 50.00 |
| Cae Chwarae Cribyn | £100.00 |
| Cronfa Cyfle I Bawb Yr Urdd | £ 50.00 |
| Urdd Ceredigion | £ 50.00 |
| Kids Cancer Charity | £ 25.00 |
| Pwll Nofio Aberaeron | £ 50.00 |
| Ambiwlans Awyr Cymru | £100.00 |
| Marie Curie | £ 50.00 |
| Côr Corisma | £100.00 |
| **CYFANSWM** | **£1125.00** |

# HYFFORDDIANT

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (adran 67) yn nodi ei bod yn hanfodol i'r cyngor wneud a cyhoeddi cynllun hyfforddi sy'n nodi ei gynigion mewn perthynas a darparu hyfforddiant ar gyfer ei aelodau a staff. Fe ddylai'r cynllun hyfforddi, nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud i adnabod ac mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi ei gynghorwyr a'i staff.

**Hyfforddiant Un Llais Cymru 2025-26**

21/07/2025 Hyfforddiant i Gynghorwyr Newydd – Wendy Lloyd Lewis

21/07/2025 Hyfforddiant i Gynghorwyr Newydd – Euros Davies

4/11/2025 - Weminar Bio-amrywiaeth – Eleri Lewis, Clerc

Mae'r Polisi Hyfforddiant llawn i'w weld ar y wefan [Llywodraethiant – Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad (llanfihangelystrad-cc.org.uk)]

# UN LLAIS CYMRU

Un Llais Cymru yw'r prif gorff ar gyfer cynghorau cymuned a thref Cymru, ac mae'n sicrhau llais cryf i gynrychioli diddordebau'r cynghorau, a darparu ystod o wasanaethau o safon i gefnogi eu gwaith. Mae 16 o Bwyllgorau Ardal, a'r Pwyllgor Cynghorau Lleol Mwy yn cwrdd yn rheolaidd ac yn rhoi cyfleoedd rhwydweithio gwerthfawr.

Mae aelodau'n elwa o:

- Cyngor cyfreithiol o safon uchel
- Cyngor ar wella darpariaeth gwasanaethau
- Hyfforddiant
- Materion Polisi –
- Cylchlythyr a gwefan –

Mae aelodaeth yn flynyddol, a seilir y tanysgrifiad ar faint y cyngor.

**Cynrychiolwyr y Cyngor ar y Pwyllgor Rhanbarth 2025-26: Y Cyng. Lynford Thomas a'r Clerc**

Cyfarfodydd Pwyllgor Ardal: 2/4/25; 24/6/25; 29/9/25

Cyfarfod Blynyddol – Y Cyng. Lynford Thomas 14/1/26

Cyfarfod Newid Ffiniau 16/2/26

# ADRODDIAD BIOAMRYWIAETH 2025

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau


Un o ddyletswyddau statudol y Cyngor Cymuned yn rhan o'r Ddeddf uchod yw cyflwyno Adroddiad bob tair mlynedd.  Eleni bu'r Clerc yn cymryd rhan mewn weminar defnyddiol iawn am oblygiadau'r Cyngor wrth weithredu'r polisi bioamrywiaeth (S6) (4/11/25). Gallwch weld yr adroddiad yn llawn ar wefan y Cyngor.

[Llywodraethiant – Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad]

# GWEITHGAREDDAU

## Prosiect Llunio Lle Felinfach ac Ystrad

Bu'r Cyngor Cymuned yn cydweithio â Chris Jones ar ymgynghoriad â gomisiynwyd gan y Cyngor Sir o'r enw Llunio Lle.  Cynhaliwyd diwrnod o weithgareddau yn Neuadd Felinfach ar yr 11eg o Dachwedd.  Edrychwn ymlaen at dderbyn ei adroddiad.



# Ymgyrch Baw Cŵn

Gyda chydweithrediad Cyngor Sir Ceredigion, dosbarthwyd posteri o amgylch y pentre'n atgoffa perchnogion o'u cyfrifoldeb wrth godi baw eu cŵn.  Mae'n braf nodi bod yr ymgyrch wedi bod yn llwyddiannus.




*Un o'r arwyddion a osodwyd ym mhentre' Cribyn gan y Cyngor Sir.*

# Sul y Cofio

Cyfranwyd £40.00 i'r Lleng Brydeinig am dorchau pabis coch a £35.00 i Gymdeithas y Cymod am dorchau pabis gwyn.

Y torchau a gyflwynwyd yng ngwasanaeth Sul y Cofio, Neuadd Felinfach ar yr 8fed o Dachwedd, 2025. Cyflwynwyd hefyd torchau yng ngwasanaeth Eglwys Cribyn ar fore Sul y 9fed o Dachwedd.



# Meinciau.

Prynwyd mainc newydd wedi ei hail-gylchu i'w gosod yn Bro Henllys Felinfach.



Y Cyng. Lynford Thomas gyda rhai o drigolion Bro Henllys yn mwynhau'r gwmnïaeth diolch i'r fainc newydd.

# Trwsio a Chlanhau Pontydd

Yn dilyn cwynion am gyflwr y pontydd ger Glanafon a Phenlangroes, Cribyn, bu'r Cyngor Sir wrthi'n trwsio a chlanhau yn ystod yr haf.



Glanafon



Penlangroe

# GWOBR Y GYMUNED

Yn flynyddol bellach mae Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad yn cyflwyno plac Gwobr y Gymuned i unigolyn neu grŵp sydd wedi gwneud gwahaniaeth yn y gymuned.

**Enillwyr Gwobr y Gymuned 2025 – CPD Felinfach**



Yn y llun: Edryd Evans, Cadeirydd CPD Felinfach, Y Cyng. Haf Hughes, Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad, Eilir Evans, cyn-Gadeirydd CPD Felinfach.

Eleni, cyflwynwyd y plac i drefnwyr Clwb Pêl Droed Felinfach a'i gyflwyno i gyn-Gadeirydd y Clwb, Eilir Evans a'r Cadeirydd presennol, Edryd Evans yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned ar y 9fed o Ragfyr.

Ers sefydlu Clwb Pêl Droed Felinfach yn 1980 mae'r Clwb wedi llwyddo i ddenu cannoedd o chwaraewyr lleol - yn blant ac yn oedolion - ynghyd â chriw o ddilynwyr ffyddlon.

Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r Clwb wedi bod yn mynd o nerth-i-nerth o dan arweiniad pwyllgor gweithgar iawn.

Un o lwyddiannau mawr y Clwb wrth gwrs yw'r Ŵyl Bêl Droed Ieuenctid sy'n cael ei chynnal adeg y Pasg yn flynyddol. Eleni, cynhaliwyd yr ŵyl am y pedwerydd-tro-ar-ddeg gan groesawu 100 o dimau a 650 o chwaraewyr. Mae'n cael ei ddisgrifio fel un o'r gwyliau pêl-droed mwyaf poblogaidd yn ngorllewin Cymru a sdim syndod - mae'r cyfan yn cael ei redeg fel wats – a ma'r tywydd wedi helpu dros y blynyddoedd hefyd!

Eleni, mae wedi bod yn dipyn o flwyddyn i'r Clwb – wedi sicrhau grant i wella'r cae, ymddangos yng Nghwpan Cymru am y tro cynta' a chodi Tlws y Gynghrair am y tro cynta' yn ei hanes.

Wrth gyflywno'r Plac i Eilir ac Edryd, meddai'r Cadeirydd Haf Hughes "Ar ran Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad, hoffwn ddiolch i chi nid yn unig am yr holl waith caled chi'n cyflawni i roi Felinfach ar y map ond hefyd am y cyfle chi'n rhoi i'r holl blant, pobl ifanc, a'r rhai bach yn hŷn, fedru chwarae ac enjoio pêl droed ar stepen eu drws, a thrwy hynny cryfau'r gymdeithas ehangach. Dymunwn bob lwc i'r Clwb i'r dyfodol".

Wrth dderbyn y Plac, diolchodd Edryd am y Wobr gan nodi pa mor falch oedd e i dderbyn yr anrhydedd ar ran y Clwb. Ychwanegodd Eilir yntau ei falchder a soniodd am bwysigrwydd y Clwb yn cael pobl o bob oed mas yn yr awyr iach i gadw'n heini trwy chwarae pêl droed.

Y newyddion da yw – tra fod Cae Felinfach yn dod yn barod - mi fydd yr Ŵyl Ieuenctid yn cael ei chynnal yn Aberaeron ym mis Ebrill. Y gobaith yw gweld y gic gynta' ar y cae ar ei newydd wedd cyn diwedd yr haf.